Adnabod Bardd

Ifor ap Glyn

Bardd Plant Cymru 2008–2009

Dwi wedi siarad Cymraeg erioed, ond ro'n i ymhell yn fy arddegau cyn y dechreuais i ddarllen ac ysgrifennu'r iaith. Ro'n i'n meddwl mai "rar" oedd y gair am "garden" a "noer" oedd y gair am "cold", am mai felly roeddwn i wedi arfer eu clywed nhw. Dwi'n reit eiddigeddus o blant sy'n derbyn eu haddysg yn Gymraeg o'r cychwyn cyntaf, heb orfod bustachu i dysgu'r ffurfiau cywir yn nes ymlaen fel y gwnes i! Ond dysgais i wers bwysig drwy hyn i gyd – hyd yn oed os nad yw eich Cymraeg yn dda iawn, mae'n bosib ei gwella. Darllenwch gymaint ag y gellwch – bydd hyn yn eich gwneud chi'n well sgwennwr yn y pen draw. Mwya yn y byd o eiriau yr ydych yn gyfarwydd â nhw, mwya yn y byd o ddewis fydd gennych chi wrth geisio ysgrifennu.

Meicroffon oedd y rheswm imi ddechrau ymhél â sgwennu go iawn. Yn y coleg, bûm yn canu hefo grŵp roc, ac er nad o'n i'n fawr o ganwr, ro'n i'n mwynhau sgwennu geiriau ar gyfer y caneuon. Pan ddaeth y grŵp i ben, fe wnes i gario ymlaen i sgwennu a darllen fy ngwaith yn gyhoeddus yn lle ei ganu.

Dwi wedi sgwennu dramâu llwyfan, opera sebon ar gyfer y teledu a hyd yn oed nofel sy'n dal yn y drôr – ond ysgrifennu cerddi yw'r cariad cyntaf o hyd.

Mae'n bwysig meddwl o flaen llaw (a byddai rhai yn dweud bod sgwennu'n dechrau ymhell cyn i chi roi pìn ar bapur, wrth feddwl am yr hyn rydych chi am ei gyfleu) ond weithiau mae 'na ryddhad mewn rhoi rhywbeth – unrhywbeth – lawr ar bapur. Deuparth gwaith ei ddechrau!

Pan o'n i'n sgwennu drama deledu, y cyngor gorau ges i erioed oedd, "dechrau yn y canol, a gad hi cyn y diwedd". Dwi'n meddwl ei fod o'n gyngor reit fuddiol wrth sgwennu cerddi hefyd. Peidiwch â cheisio dweud y cyfan. Torrwch bethau yn eu blas. A pheidiwch â bod yn gyndyn o ail-ddrafftio darn o waith a thrydydd ddrafftio os oes rhaid – fel 'na daw'r sglein ar eich gwaith. Daliwch ati a mwynhewch!

2009 Llun: Urdd Gobaith Cymru

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

gwales.com
LLYFRAU AR-LEIN BOOKS ON-LINE

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

Adnabod Bardd

Ifor ap Glyn

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu? Cefais fy ngeni ym Muswell Hill yn Llundain a'm magu mewn lle o'r enw Pinner.

Ble cawsoch chi eich addysg? West Lodge Primary oedd enw'r ysgol leol yn Pinner, ac yna es i i'r ysgol uwchradd yn University College School. Roedd honno yn Hampstead a oedd yn golygu taith o ryw hanner awr ar y tiwb bob bore. Yna es i'r Brifysgol yng Nghaerdydd.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Roeddwn i'n leicio gwneud model enfawr o'r eglwys leol gyda weiran a *papier mâché*. Doeddwn i ddim yn hoffi cheese pie amser cinio – roedd yn troi arna i, sy'n rhyfedd, achos bellach dwi wrth fy modd hefo caws o bob math!

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny? Doeddwn i ddim yn rhyw siŵr iawn. A dweud y gwir, parhaodd y teimlad yna tan yr o'n i'n 27!

Beth oedd eich hoff lyfr yn blentyn? ***Speed Six*** gan Bruce Carter – dwi'n siŵr mod i wedi ei ddarllen ddegau o weithiau.

Beth yw eich hoff ddiddordebau? Hanes, rygbi a phêl-droed. Cerdded mynyddoedd a garddio pan ga' i gyfle (nid ar ben y mynyddoedd, ond yng nghefn y tŷ!).

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Rhannu straeon a syniadau gogleisiol yng nghwmni cyfeillion.

Beth sy'n eich gwylltio chi? Plastig; gorfod delio hefo technoleg yn lle pobl.

Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu? Pan o'n i tua deunaw. Roedd yna eisteddfod bob blwyddyn yn Llundain a chymerais i yn fy mhen y dylwn i roi cynnig ar gystadleuaeth yr englyn. Doedd y ffaith mod i ddim yn gwybod sut i sgwennu englyn yn nadu dim arna i!

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i farddoni? Na, ond tydi hynny erioed wedi fy stopio i.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau? Dwi ddim yn siŵr, ond dwi'n gwybod lle dwi'n eu cadw nhw. Mae syniad yn gallu taro rywun ar yr adegau rhyfedda – wrth olchi llestri, wrth siafio, neu wrth fynd â'r plant i'r ysgol, felly mae'n bwysig bod yn barod amdanyn nhw a'u sgwennu i lawr cyn iddyn nhw ddianc eto. Dwi'n cadw llyfr bach du yn fy mhoced i'r diben hwn!

Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch? Mae pethau teuluol a helyntion yr iaith Gymraeg yn ymddangos yn reit aml yn fy ngherddi. Dwi'n leicio sgwennu pethau lloerig weithiau hefyd.

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu? Mae rhythm yn bwysicach nag odli. Triwch ddefnyddio geiriau ffres ac annisgwyl hyd yn oed. Peidiwch â sgwennu'r peth cynta sy'n dod i'ch meddwl, ond triwch feddwl am ffordd wahanol o gyfleu'r un syniad. Trowch eich syniadau y tu chwith allan. Ac yn olaf, daliwch ati!

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan? Hoffwn i fod yn fwy disgybledig o ran amser. Dwi'n hwyr yn rhy aml. Dwi dri mis ar ei hôl hi yn ateb y cwestiynau hyn!

Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau? ***Con Passionate***, ***Outnumbered*** a rhaglenni dogfen o bob math, yn enwedig rhai hanesyddol.

Beth yw eich hoff fwyd? Torth ffres a menyn, neu frechdan caws a jam.

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin? Gwreiddioldeb plant bach.

Unrhyw gyfrinachau eraill yr hoffech eu rhannu â phlant Cymru? (i) Peidiwch â bwyta eira melyn. (ii) Pan fo fan hufen iâ yn canu'i chlychau, dyw hynny ddim yn golygu ei bod hi'n wag ac ar y ffordd nôl i'r *depot* (fel y mynnai fy nhad erstalwm!)

urdd.org
Urdd Gobaith Cymru

academi

S4/C

www.s4c.co.uk/barddplantcymru